# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

16 Ionawr/January, 2019

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar **ddydd Mercher, 23 Ionawr 2019 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 2.00 o'r gloch yp** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Dr Gwynne Jones*
**YSGRIFENNYDD**

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Wednesday, 23 January, 2019 to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 2.00 p.m.,** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Dr Gwynne Jones*
**SECRETARY**

**Ysgrifennydd/Secretary :** Dr. Gwynne Jones **Trysorydd/Treasurer :** Mr. Marc Jones

**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 12 Rhagfyr, 2018.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem of fusnes.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18** (Tudalennau 5 - 26)

Cyflwyno, i'w mabwysiadu, Adroddiad Blynyddol 2017/18.

5 **CYLLIDEB 2019/20** (Tudalennau 27 - 30)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

6 **CYLLID YN Y DYFODOL URDD GOBAITH CYMRU A FFERMWYR IFANC MÔN** (Tudalennau 31 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | T Ll Hughes MBE (Cadeirydd)<br>R O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, R Ll Jones, A M Jones, G O Jones, R. Meirion Jones, Eric Wyn Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS, Dylan Rees, J A Roberts, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitl eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Lewis Davies, Glyn Haynes, Llinos Medi Huws, Shaun James Redmond, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Yn ystod y drafodaeth datganodd Mr Aled M Jones ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas â Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, ond yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol roedd modd iddo gymryd rhan yn y drafodaeth ond gadawodd y cyfarfod yn ystod y bleidlais ar y mater.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2018 yn gywir.

### 3 ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

**Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**

Cadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2018.

### 4 GRANTIAU MAWR - DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd – adroddiad wedi ei ddiweddaru gan y Trysorydd ynglŷn â statws y grantiau mawr a ddyfarnwyd yn 2017 a 2018.

Adroddodd y Trysorydd fod deuddeg o grantiau mawr wedi cael eu dyrannu yn 2017/18 a phedwar ar ddeg yn 2018/19. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am wariant a lefel y grantiau a hawliwyd hyd yma.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 5 PROSES DDYFARNU GRANTIAU MAWR

*(Yn ystod y drafodaeth, datganodd y Cynghorydd Aled M Jones ddiddordeb mewn perthynas â Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, ond yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol roedd modd iddo gymryd rhan yn y drafodaeth ond gadawodd yr ystafell yn ystod y bleidlais ar y mater).*

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r broses ar gyfer dyrannu grantiau mawr, yn cynnwys penderfynu ar lefel y cyllid sydd ar gael a'r broses ar gyfer monitro grantiau a ddyfarnwyd.

Adroddodd y Trysorydd fod yr Ymddiriedolaeth wedi dyfarnu grantiau mawr ers 2016 gyda gwahoddiad agored i sefydliadau gyflwyno ceisiadau am gymorth. Yn 2018, derbyniwyd cyfanswm o 34 o geisiadau ac roedd 14 sefydliad yn llwyddiannus, gan dderbyn grantiau o rhwng £6,000 a £66,414 gyda chyfanswm grantiau o £349,768 yn cael eu dyfarnu. Nododd y Trysorydd, gan nad yw'r Ymddiriedolaeth Elusennol bresennol yn cyflogi ei staff ei hun mae cyfyngiad ar yr hyn y gellir ei gyflawni ac mae'n debyg mai dosbarthu grantiau yn y modd hwn yw'r gorau y gall yr Ymddiriedolaeth ei wneud o ystyried yr adnoddau presennol. Bydd sefydlu Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) yn caniatáu i'r Ymddiriedolaeth ailystyried sut mae'n defnyddio ei chronfeydd er mwyn cyflawni'r budd mwyaf i bobl Ynys Môn.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau ar 6 Tachwedd 2018 ac ar ôl ystyried perfformiad y portffolio buddsoddi yn ystod y 12 mis blaenorol a'r risgiau ynghyd â'r angen i gynnal gwerth y gronfa ar lefel sy'n cynhyrchu digon o incwm blynyddol, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r swm sydd ar gael ar gyfer grantiau mawr barhau ar yr un lefel ag yn 2018, h.y. £350k.

Gofynnodd yr Ysgrifennydd a oedd yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn dymuno ystyried ceisiadau gan Urdd Gobaith Cymru a Ffermwyr Ifanc Ynys Môn fel rhan o'r Cynllun Dyfarnu Grantiau Mawr gan fod y trefniant i gyllido'r sefydliadau hyn yn dod i ben yn 2019. Ym mis Mehefin 2014 penderfynodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol roi grant o £40k y flwyddyn i Urdd Gobaith Cymru a grant o £30k y flwyddyn i Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, am gyfnod o 5 mlynedd i'r ddau sefydliad. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd y gallai'r Ymddiriedolaeth Elusennol ystyried cyllido'r sefydliadau hyn am flwyddyn ychwanegol nes bydd y SCE wedi cael ei sefydlu.

Mynegodd rhai Aelodau o'r Ymddiriedolaeth Elusennol bryder na chyfeiriwyd at y sefydliadau hyn yn yr adroddiad. Er yn derbyn bod y ddau sefydliad yn hollbwysig o ran cynnig cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn cystadlaethau a gweithgareddau, ystyriwyd y dylid ymdrin â phob sefydliad yn gyfartal yn ystod y broses dyfarnu grantiau. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod yr Ymddiriedolaeth Elusennol ym mis Ionawr 2019 er mwyn trafod opsiynau ar gyfer cyllido Urdd Gobaith Cymru a Ffermwyr Ifanc Ynys Môn yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Dyrannu grantiau mwy eto yn 2019 a bod yr SCE, unwaith y bydd wedi ei sefydlu, yn adolygu a ddylid parhau i ddyfarnu grantiau mwy o 2020 ymlaen.**
- **Dyrannu swm o £350,000, fel yr argymhellir gan y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau, i gyllido'r grantiau mwy yn 2019.**
- **Gwahodd ceisiadau ar unwaith gyda dyddiad cau o 31 Ionawr 2019 ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau.**
- **Bod y Pwyllgor Adfywio yn ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2019, gan ddilyn y meini prawf a nodir ym mharagraffau 5.1 a 5.2 o'r adroddiad hwn, gydag argymhellion y Pwyllgor hwn yn cael eu hystyried gan yr Ymddiriedolaeth lawn ar 16 Ebrill 2019.**

- **Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Ymddiriedolaeth Elusennol ym mis Ionawr 2019 ynglŷn ag a ddylid dyrannu arian grant i Urdd Gobaith Cymru a Ffermwyr Ifanc Ynys Môn.**

## 6 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 7 PWYLLGOR NEUADD BENTREF LLANDDONA – CAIS AM GRANT MAWR

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd ynghylch yr uchod.

Cyflwynodd y Trysorydd fanylion materion annisgwyl a gododd o ganlyniad i werthu Neuadd Bentref Llanddona i'r sefydliad. Nododd fod Pwyllgor Neuadd Bentref Llanddona wedi gwneud cais am gyllid ychwanegol gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol er mwyn cwblhau gwaith annisgwyl.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD cymeradwyo grant ychwanegol o £20,354 oherwydd y problemau annisgwyl yn Neuadd Bentref Llanddona.**

## 8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadau'r canlynol :-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 9 CLWB PÊL-DROED BAE CEMAES – CAIS AM GRANT MAWR

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd ynghylch yr uchod.

Cyflwynodd y Trysorydd fanylion am gostau ychwanegol y prosiect oherwydd nad oedd colofnau'r llifoleuadau yn addas ac felly gwnaed cais am gyllid ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith yng Nghlwb Pêl-droed Bae Cemaes.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD cymeradwyo grant ychwanegol o £34,948k o ganlyniad i amgylchiadau annisgwyl yng Nghlwb Pêl-droed Bae Cemaes.**

*(Ataliodd Mr Alun W Mummery ei bleidlais).*

## 10 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 11 CYMDEITHAS Y BYDDAR GOGLEDD CYMRU – GRANTIAU BACH

Cyflwynwyd – er gwybodaeth, adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Mr T Ll Hughes MBE**
**Cadeirydd**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **Dyddiad :** | **23 Ionawr 2019** |
| **Teitl yr Adroddiad :** | **Adroddiad Blynyddol 2017/18** |
| **Pwrpas yr Adroddiad :** | **I gyflwyno yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft i'w Mabwysiadu** |
| **Adroddiad Gan :** | **Trysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **Gweithrediad :** | **Mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac awdurdodi eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau** |

Mae'r archwiliad o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft ar gyfer 2017/18 sydd ynghlwm wedi eu cwblhau ac, felly, fe'u cyflwynir i'w mabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Gwahoddir yr Ymddiriedolaeth Elusennol i fabwysiadu'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a gyflwynir, ac i awdurdodi Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth i arwyddo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon â'r Llythyr o Gynrychiolaeth yr Archwiliad.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD –**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **16 IONAWR 2019**

# YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

# ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2017/2018

## ANNUAL REPORT

Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn / Isle of Anglesey Charitable Trust
Swyddfa'r Sir / County Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Cofrestredig : 1000818

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18

## GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

### GWEITHRED YMDDIRIEDOLAETH

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif Elusen Gofrestredig 1000818) ar 5 Mehefin 1990 ac mae Gweithred Ymddiriedolaeth gyda'r dyddiad hwn arni yn nodi dyletswyddau, pwerau ac amodau y bydd raid i'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio gyda nhw.

### YMDDIRIEDOLWR

Unig Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn. Y rhai mewn swydd oedd:-

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | - | Thomas Victor Hughes hyd at 6 Gorffennaf 2017<br>Trevor Lloyd Hughes MBE o 6 Gorffennaf 2017 |
| Is-Gadeirydd | - | Trevor Lloyd Hughes MBE hyd at 6 Gorffennaf 2017<br>Richard Owain Hughes o 6 Gorffennaf 2017 |
| Ysgrifennydd | - | Prif Weithredwr y Cyngor:<br>Dr William Owen Gwynne Jones |
| Trysorydd | - | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 y Cyngor:<br>Marc Jones |
| Cyfreithiwr | - | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro y Cyngor:<br>Lynn Ball |

**CYNGHORWYR**

Y rhain oedd yn cynghori'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2017/18:-

| | | |
|---|---|---|
| Bancwyr | : | HSBC Cyf<br>Stryd Fawr<br>Llangefni<br>LL77 7LU |
| Archwilwyr | : | Y Mri W.J.Matthews a'i Fab<br>Cyfrifwyr Siartredig<br>11 - 15 Y Bont Bridd<br>Caernarfon<br>LL55 1AB |
| Rheolwyr Buddsoddi: | | HSBC Private Bank (UK) Limited<br>78 James's Street<br>Llundain<br>SW1A 1JB |

**STRWYTHUR LLYWODRAETHU A RHEOLI**

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn, rhagflaenydd i'r Cyngor Sir, i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gyda'r arian a roddwyd i'r Cyngor pryd yr oedd Shell (UK) Ltd yn rhoi'r gorau i weithio'r Lanfa Olew ym Môn. Rhoddwyd yr arian hwn gan Shell (UK) Ltd dan Ddeddf Seneddol breifat - Deddf Glanfa Môn 1972, sef deddf a oedd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor "i ddefnyddio'r arian yn un swydd er lles Ynys Môn neu ei thrigolion".

Mae gan y Cyngor Sir 30 Aelod etholedig sydd, ar gyfer gweithredu fel Ymddiriedolwr, yn cyfarfod ar wahân i'w cyfarfodydd fel awdurdod lleol. Mae Aelodau etholedig newydd yn cael eu briffio ar amcanion ac ar sut y gweinyddir yr Ymddiriedolaeth. Cefnogir yr holl Aelodau etholedig gan swyddogion y Cyngor, sy'n derbyn hyfforddiant rheolaidd fel rhan o'u swyddi. Cynhelir cyfarfodydd llawn, fel Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn penderfynu ar bolisi ac ar wariant am y flwyddyn. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol dri phwyllgor, gyda phob Aelod o'r Cyngor yn aelod o un ohonynt (a Chadeirydd ac Is-gadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn aelodau ex officio o bob un):-

> Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau, oedd a deg o aelodau yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth trwy'r ymgynghorwyr buddsoddi, am faterion ynglŷn â'r eiddo sydd ym mherchenogaeth yr Ymddiriedolaeth ac am faterion cytundebol eraill.
>
> Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, oedd a deg aelod yn ystod y flwyddyn. Mae'n penderfynu ar raglen grantiau blynyddol a gyllidir o gyllideb refeniw'r Ymddiriedolaeth Elusennol a benderfynir gan y corff llawn a'i ddirprwyo i'r Pwyllgor hwn.
>
> Pwyllgor Adfywio, oedd a deg aelod yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn penderfyniad i neilltuo cyllid at amcanion adfywio, mae'r Pwyllgor Adfywio yn penderfynu ar grantiau adfywio ac yn monitro cynnydd ar gynlluniau adfywio.

Mae Swyddogion yr Ymddiriedolaeth Elusennol ac, ar adegau, swyddogion eraill y Cyngor Sir, yn rhoi cyngor i'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn ei gyfarfodydd. Ychydig o benderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo iddynt.

Mae gweithgareddau dyddiol, fel y'u cymeradwyir gan yr Ymddiriedolaeth, yn cael eu gweinyddu ar ran yr Ymddiriedolaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae rhai nodweddion y broses ceisio am grant yn gyffredin i'r Ymddiriedolaeth hon a chronfeydd eraill a weinyddir gan y Cyngor Sir er mwyn hwyluso'r broses i ymgeiswyr.

Mae'r risgiau sylweddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel sydd wedi eu hadnabod gan yr Ymddiriedolwr, wedi eu hadolygu a sefydlwyd systemau neu gweithdrefnau i reoli'r risg.

**AMCANION A GWEITHGAREDDAU**

Cyfyngir amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth i les cyhoeddus a chyffredinol y bobl hynny sy'n byw ar Ynys Môn, yn cynnwys:-

darparu mwynderau a chyfleusterau;
cadwraeth adeiladau;
cadwraeth a gwarchodaeth tir;
gwarchod a diogelu'r amgylchedd.

Cyrhaeddir y nod hwn trwy gyfrannu tuag at wario ar wasanaethau er lles y cyhoedd a thrwy roddi grantiau i gyrff elusennol a gwirfoddol.

Mae'r cyfyngiadau ar ddulliau rhedeg yr Ymddiriedolaeth wedi eu nodi yn y Weithred Ymddiriedolaeth. Y prif bwerau yw hybu amcanion elusennol a gwneud trefniadau i bwrpas rheoli a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth fel y tybir yn addas.

Mae gwaddol gan yr Ymddiriedolaeth, y gellid ei wario ar yr amod bod dwy ran o dair o'r aelodau yn cymeradwyo penderfyniad i'r perwyl. Mae wedi mabwysiadu amcan tymor-hir y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant. Mae'r incwm buddsoddi yn cyllido rhan o gostau rhedeg Oriel Ynys Môn a rhaglen grantiau blynyddol.

**POLISI DYRANNU GRANTIAU**

Dyrennir grantiau o'r incwm buddsoddi blynyddol i elusennau, mudiadau gwirfoddol a chyrff lleol eraill ar gyfer prosiectau ar Ynys Môn. Mae rhain ar gyfer grantiau bach (llai na £8,000) ac mae'r Ymddiriedolwr yn gwahoddi am geisiadau gyllid, unwaith y flwyddyn fel arfer, trwy hysbysebu yn y papurau lleol. Gwneir cais trwy ffurflen gais safonol.

Cyllidir grantiau mwy, hefyd, o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y buddsoddiadau a ddelir. Y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau sy'n penderfynu'r gwerth i'w ddyrannu yn seiliedig ar berfformiad y gronfa yn y blwyddyn blaenorol a'r perfformiad rhagwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dyrennir y grantiau mwy (dros £8,000) i sefydliadau sy'n cwrdd a dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth ac mae'r Ymddiriedolwr yn gwahoddi am geisiadau gyllid, unwaith y flwyddyn fel arfer, trwy hysbysebu yn y papurau lleol. Gwneir cais trwy ffurflen gais safonol.

Gwneir dyraniadau yn flynyddol i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bychain);
Neuaddau Pentref (costau rhedeg blynyddol);
Grantiau bach (grantiau bychain unwaith-ac-am-byth yn bennaf sydd yn llai na £8,000);
Grantiau mwy (grantiau mawr unwaith-ac-am-byth yn bennaf sydd yn fwy na £8,000).

## POLISI YNGLŶN Â'R ARIAN WRTH GEFN

Canlyniad y strategaeth ariannol a fabwysiadwyd yn 2009 yw nad oes angen rhagor ar arian wrth gefn cyfalaf ar wahân, heblaw i adnabod ymrwymiadau hanesyddol. Oherwydd gall rhai o'r ymrwymiadau ariannol gael eu gwneud dros gyfnod o fwy nac un blwyddyn ariannol, mae'r arian wrth gefn cyffredinol yn cael ei alluogi i fynd i ddiffyg ar yr amod fod llif arian yn ei ddod yn ôl i warged erbyn bydd yr ymrwymiad yn cael ei anrhydeddu'n llawn.

Mae'r Ymddiriedolwr yn ystyried fod lefel gyfredol yr arian wrth gefn yn ddigonol i ddarparu incwm buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer taliadau grant a hefyd ar gyfer costau cefnogi llywodraethu.

## CYFLAWNI A PHERFFORMIAD

Rhoddwyd grantiau i 65 o gyrff gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt ac y mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn ffynhonnell bwysig o gyllid i elusennau lleol a chyrff chwaraeon a rhai gwirfoddol.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gyllido Oriel Ynys Môn sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor Sir.

Yn ystod y flwyddyn, roedd Oriel Ynys Môn ar agor 359 diwrnod, gan gyrraedd ei darged ar gyfer dyddiau agor.

Yn ystod y flwyddyn, ddaru'r Oriel:-

- Ddenu 97,071 o ymwelwyr, cynnydd o 16.49% ar gyfanswm y flwyddyn flaenorol o 83,331;
- Gynnal 8 arddangosfa gyfoes fawr, 3 arddangosfa gelf gyfoes bach (Oriel Hir) a 3 arddangosfa gelf hanesyddol (Oriel Kyffin & Oriel Tunnicliffe);
- Gynnal 3 arddangosfa amgueddfa;
- Gynnal 20 o weithgareddau teuluoedd;
- Gynnal 27 o weithgareddau â phlant;
- Gynnal 63 ymweliad addysgiadol;
- Roi 12 sgwrs neu ddiwrnod agored yn y gymuned am yr Oriel a'r casgliadau;
- Gynnal 27 o weithgareddau ar gyfer oedolion;
- Gynnal 12 sgwrs y tu ôl i'r llenni;
- Dderbyn 69 ymholiad gan y cyhoedd ynglŷn â'r casgliadau; a
- Gweithio hefo 61 o bartneriaid, lleol a chenedlaethol yng Nghymru a thrwy gydol Prydain, ar wahanol lefelau i ehangu a datblygu enw da'r Oriel a phroffil Ynys Môn.

Yn ychwanegol, eto eleni mae'r Oriel wedi cael y Wobr Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd i Atyniadau Ymwelwyr Cymru (rhoddwyd gan Visit Wales) gyda sgor o 82%.

## PERFFORMIAD BUDDSODDI

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bwerau buddsoddi eang sy'n cynnwys prynu stociau, cyfranddaliadau, gwariannau ac eiddo o bob math pa un a ydynt yn cynhyrchu incwm ai peidio â beth bynnag fo'r risgiau cysylltiedig. Disgrifir y pwerau hyn yn y Weithred Ymddiriedolaeth.

Mae'r perfformiad hyd yma yn erbyn yr amcan tymor-hir y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant, wedi ei glandro heb gynnwys gwerth y tir, fel a ganlyn:-

Ers 1990: Targed: £17.758m Gwerth ar 31/03/18: £22.500m, sef £4.742m uwchlaw'r targed.

**Incwm Buddsoddiadau**

Targed : £628,104    Cyflawni : £601,412, sef  £26,692 o dan y targed.

**Perfformiad i'w gymharu â'r meincnod**

Y strategaeth gytunedig ar gyfer y tymor hir yw ychwanegu 5% uwchben y cyfradd sylfaenol Banc Lloegr, gyda'r meincnod dilynol ar gyfer dyrannu asedau:-

| | |
|---|---|
| Ecwitïau'r DU | 30.0% |
| Ecwitïau Tramor | 36.5% |
| Llog Sefydlog | 25.0% |
| Eraill | 6.0% |
| Arian Parod | 2.5% |

Nid oes yna ffî yn gysylltiedig â pherfformiad yn cael ei godi ar y protffolio ond mae yna ffî gyson o 0.40% yn cael ei godi ar hyn o bryd, sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn.

**ADOLYGIAD ARIANNOL**

Roedd yr incwm buddsoddi gros a ragwelwyd am y flwyddyn yn £628,104. Ar ei diwedd, roedd yr incwm buddsoddi yn £601,732 (2016/17: £611,711). Yn ychwanegol, cynyddodd buddsoddiad portffolio mewn gwerth o £225,389m (0.26%) dros y flwyddyn.

Roedd y gyllideb am y flwyddyn yn caniatáu dyrannu grantiau o £928,579 (£770,996 yn 2016/17).

**DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Ar gyfer 2018/19, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth y dyfarniadau grant canlynol o fewn y categorïau blynyddol arferol:-

- Cyfleusterau Cymunedol: £125,000;
- Neuaddau Pentref: £80,000; a
- Oriel Ynys Môn: £215,000.

Yn ychwanegol i'r uchod, gwnaed y dyfarniadau grant isod gan yr Ymddiriedolaeth, fel rhan o'r broses grantiau mwy (dros £8,000), fydd yn cael ei gyllido gan ganran o'r cynnydd mewn gwerth buddsoddiadau cyfalaf ar gyfer un flwyddyn yn unig :-

- Clwb Pêl Droed Bae Cemaes - £37,170;
- Neuadd Bentref Aberffraw - £43,100;
- Cyngor ar Bopeth - £39,794;
- Neuadd Bentref Llanfairynghornwy - £26,388;
- Banc Bwyd Ynys Môn - £20,000;
- Tudur Cyf - £6,000;
- Cymdeithas Treftadaeth Ddiwydiannol Amlwch - £66,414;
- Beiciau Gwaed Cymru - £7,590;
- Clwb Rygbi Llangefni  - £18,000;
- Ffrindiau Moelfre - £26,900;
- Côr Ieuenctid Môn - £13,762;
- Ymddiriedolaeth Colofn Môn - £10,000.
- Neuadd Goffa Bodwrog - £24,650;
- Band Biwmares - £10,000; a
- Trip Singapôre Ysgol Gyfun Llangefni - £10,000.

**CYNLLUNIAU I'R DYFODOL**

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cychwyn sefydlu Cymdeithas Elusennol Gofrestredig a elwir yn "Cymdeithas Elusennol Ynys Môn". Bydd y Sefydliad newydd yn endid cyfreithiol ar wahân a chanddo'r un dibenion elusennol ag Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Bydd asedau a rhwymedigaethau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn cael eu trosglwyddo i Gymdeithas Elusennol Ynys Môn yn ystod 2019/20.

**DATGANIADAU CYLLIDOL**

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau (FRS102), ac maent yn cydymffurfio â gweithred ymddiriedolaeth yr Elusen a chyfraith berthnasol.

Yng nghyfarfod yr Ymddiriedolaeth ar 23 Ionawr 2019, rhoddwyd cymeradwyaeth i Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwr ac i'r Cyfrifon sy'n ymddangos ar dudalennau 8 i 18.

**Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr ar 23 Ionawr 2019**

**a llofnodwyd ar ei ran gan: ……………………………………………**

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Elusen Gofrestredig: 1000818

**DATGANIAD AR WEITHGAREDDAU ARIANNOL DROS Y FLWYDDYN A DDARFU AR 31 MAWRTH 2018**

| 2016/17 £ | ADNODDAU I MEWN | NODYN | Y GRONFA GYFFREDINOL £ | Y GRONFA GYFALAF £ | CYFANSWM £ |
|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm Buddsoddi | | | | |
| 570,623 | - Difidend a llog sefydlog ar fondiau | | 555,736 | - | 555,736 |
| 40,088 | - Llog | | 45,676 | - | 45,676 |
| 610,711 | | 2 | 601,412 | - | 601,412 |
| 508 | Incwm arall | | - | 320 | 320 |
| 611,219 | **Cyfanswm Adnoddau i mewn** | | 601,412 | 320 | 601,732 |
| | **Adnoddau wedi eu gwario** | | | | |
| | Costau Cynhyrchu Cronfeydd | 3 | | | |
| 60,016 | Costau Rheoli Buddsoddiadau | | 68,291 | - | 68,291 |
| 19,889 | Costau Cyfreithiol a Marchnata | | 6,900 | - | 6,900 |
| 79,905 | **Cyfanswm costau cynhyrchu cronfeydd** | | 75,191 | - | 75,191 |
| **531,314** | **Adnoddau net i mewn ar gael ar gyfer gwariant elusennol** | | **526,221** | **320** | **526,541** |
| | **Gweithgareddau Elusennol** | | | | |
| | Grantiau er hyrwyddo amcanion yr Elusen | 5 | | | |
| 215,000 | - Cyngor Sir Ynys Môn – Oriel Ynys Môn | | 215,000 | - | 215,000 |
| 165,996 | - Cyrff Cymunedol a Gwirfoddol | | 143,579 | - | 143,579 |
| 390,000 | - Grantiau Mwy | | - | 570,000 | 570,000 |
| (10,376) | Llai Grantiau heb eu hawlio | | (972) | - | (972) |
| 760,620 | **Cyfanswm cost Grantiau a Gweithgareddau** | | 357,607 | 570,000 | 927,607 |
| | **Llywodraethu** | | | | |
| 36,671 | Ffioedd a Chostau | 6 | 44,312 | 311 | 44,623 |
| **797,291** | **Cyfanswm Gwariant Elusennol** | | **401,919** | **570,311** | **972,230** |
| | | | | | |
| **877,196** | **Cyfanswm Adnoddau wedi eu gwario** | | **477,110** | 570,311 | **1,047,421** |
| **(265,977)** | **Adnoddau Net i mewn** | | **124,302** | **(569,991)** | **(445,689)** |
| | **Enillion a Cholledion Eraill** | | | | |
| 3,033,174 | Enillion/(colledion) o ganlyniad i ailbrisiant a gwerthiant asedau buddsoddi | 14 | - | (500,323) | (500,323) |
| 2,767,197 | **Symudiadau Net o Gronfeydd** | | **124,302** | (1,070,314) | (946,012) |
| 19,069,611 | **Cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill** | | (82,853) | 21,919,661 | 21,836,808 |
| **21,836,808** | **Cronfeydd a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth** | | **41,449** | **20,849,347** | **20,890,796** |

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Gofrestredig : 1000818

**Y FANTOLEN FEL AR 31 MAWRTH 2018**

| 2017 £ | | NODYN | £ | £ |
|---|---|---|---|---|
| | **Asedau Sefydlog** | | | |
| 22,349,055 | Buddsoddiadau | 8 | | 21,535,883 |
| 22,349,055 | | | | 21,535,883 |
| | **Asedau Cyfredol** | | | |
| 72,021 | Dyledwyr ac Incwm wedi ei gronni | 9 | 58,346 | |
| 3,077 | Arian yn y Banc | | 7,021 | |
| 75,098 | | | | 65,367 |
| | **Ymrwymiadau** : Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | | |
| (39,213) | Credydwyr | 10 | (38,248) | |
| (548,132) | Grantiau heb eu talu | 11 | (672,206) | |
| (587,345) | | | | (710,454) |
| **(512,247)** | **Asedau / (Ymrwymiadau) Cyfredol Net** | | | **(645,087)** |
| **21,836,808** | **Asedau Net** | | | **20,890,796** |
| | **Cronfeydd** | 12 | | |
| (82,853) | Cronfeydd heb eu : Y Gronfa Gyffredinol | | | 41,448 |
| 22,310,189 | Cyfyngu : Cyfalaf | | | 21,810,188 |
| (390,528) | : Grantiau i'w Dyrannu o'r Cyfalaf | | | (960,840) |
| **21,836,808** | | | | **20,890,796** |

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Gofrestredig : 1000818

**DATGANIAD LLIF ARIAN FEL AR 31 MAWRTH 2018**

| | NODYN | 2018<br>£ | | 2017<br>£ | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu:** | **15** | | **(910,639)** | | **(1,245,349)** |
| **Arian net ddarparwyd gan (ddefnyddiwyd yn) gweithgareddau gweithredu** | | | | | |
| Difidendau, llog a rhent o fuddsoddiadau | | 614,750 | | 561,564 | |
| Elw o werthu asedau | | - | | - | |
| Elw o werthu buddsoddiadau | | 7,264,172 | | 9,680,353 | |
| Prynu buddsoddiadau | | (6,767,995) | | (11,445,637) | |
| | | 1,110,928 | | (1,203,720) | |
| **Arian net ddarparwyd gan (ddefnyddiwyd yng) weithgareddau buddsoddi** | | | **1,110,928** | | **(1,203,720)** |
| **Newid yn yr arian a chywerth arian yn y cyfnod adrodd** | | | **200,289** | | **(2,449,069)** |
| **Arian a chywerth arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd** | | 623,962 | | 3,073,031 | |
| **Newid yn yr arian a chywerth arian yn y cyfnod adrodd** | | 200,289 | | (2,449,069) | |
| **Arian a chywerth arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | | **824,251** | | **623,962** |

**Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr ar** 23 Ionawr 2019

**a llofnodwyd ar ei ran gan** ……………………………………..

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

**1. POLISÏAU CYFRIFO**

**(a)** **Sail Cyfrifo:** Darparwyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer a Argymhellir, sy'n berthnasol i elusennau sy'n darparu eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac Iwerddon (FRS 102) (effeithiol o 1 Ionawr 2015) – (SORP Elusennau (FRS102)), y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Du ac Iwerddon (FRS102) a gweithred yr Elusen a'r gyfraith berthnasol.

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn cwrdd â diffiniad FRS102 o endid buddiant cyhoeddus. Cofnodi'r asedau a rhwymedigaethau yn y cyfrifon ar gost hanesyddol heblaw y cawsant eu hail-ddatgan yn unol â pholisi cyfrifo perthnasol.

**(b)** Mae'r **grantiau sy'n daladwy** yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon pan fo'r dyraniad wedi ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth, a phan mae unrhyw amod a roddwyd ar y cyllid wedi eu cadarnhau.

**(c)** Mae'r **incwm buddsoddiadau** yn gynwysedig yn y cyfrifon:-

- am adneuon tymor byr a balansau ar sail gronedig ddyddiol;
- am ecwiti - pan gyhoeddir stoc fel cyn-rhandal;
- am renti – yn y flwyddyn y mae'n codi;
- am gronfeydd cyfun ac incwm arall, pan dderbynnir yr incwm.

Mae'r elfen gyffredin o'r stoc a dderbynnir yn lle difidend arian parod yn cael ei thrin fel incwm i'r gronfa.

**(ch)** **Gwariant**: Cynhwysir gwariant ar sail gronedig. Mae costau wedi eu rhannu i gategorïau pwrpasol yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol. Costau cynhyrchu incwm yw'r costau hynny sy'n codi'n uniongyrchol o wella, diogelu neu farchnata'r eiddo buddsoddi a chostau rheoli'r portffolio buddsoddiadau a chodi incwm buddsoddiadau.

Mae gwariant elusennol yn cynnwys grantiau i gyrff gwirfoddol a lleol a chyfraniadau i wasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd wedi cynnwys gwariant uniongyrchol ar adeilad hanesyddol ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth. Codir y rhain yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i gynnig grant. Lle mae cyrff wedi cael eu hysbysu o fwriad i gynnig grant yn y dyfodol, nodir hynny heb eu cronni yn y cyfrifon.

Mae rheoli a gweinyddu yn cynnwys taliadau i drydydd partîon yn ymwneud â gweinyddu'r Ymddiriedolaeth.

**(d)** **Buddsoddiadau**: Mae buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth wedi eu prisio yn ôl pris canolig y farchnad ar gau'r farchnad ar ddyddiad y fantolen, ar wahân i fuddsoddiadau cyfun sydd wedi eu prisio yn ôl y pris bidio.

Mae enillion neu golledion o werthu neu ailbrisio buddsoddiadau yn cael eu codi ar neu eu rhoi ar gredyd yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol.

**(dd)** **Eiddo Buddsoddi**: Gweler nodyn 7 i'r cyfrifon.

**(e)** **Cronfeydd**: Rhoddir eglurhad o natur a phwrpas pob cronfa yn nodyn 12.

**(f)** **Darparu'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol** : Mae'r ymddiriedolwr o'r farn fod gan yr elusen ddigon o arian wrth gefn a bod yr elusen yn fusnes weithredol.

## 2. INCWM BUDDSODDI

Daw'r cyfan bron o incwm yr Ymddiriedolaeth o fuddsoddiadau yn nwylo'r Rheolwyr Buddsoddi. Mae eu ffioedd yn amodol ar berfformiad y buddsoddiadau ac mae incwm yn cael ei ragamcanu yn net o ffioedd. Roedd cyfanswm incwm ar fuddsoddiadau (heb gynnwys rhenti tir) yn 2017/18 yn £601,412 (£610,711 yn 2016/17).

## 3. COSTAU CYNHYRCHU'R CRONFEYDD

Rhain yw costau rheoli'r eiddo buddsoddi a'r ffi i'r Rheolwyr Buddsoddi.

| | **2017/18**<br>**£** | **2016/17**<br>**£** |
|---|---|---|
| Ffi'r Rheolwyr Buddsoddi | 68,291 | 60,016 |
| Costau Cyfreithiol | 6,900 | 19,889 |
| | 75,191 | 79,905 |

Mae'r gost o wella, diogelu neu farchnata'r eiddo buddsoddi yn cael ei godi i'r Gronfa Gyfalaf. Codir rhan gyntaf o ffi'r Rheolwyr Buddsoddi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol ac unrhyw gost ychwanegol am berfformiad gwell na'r cyffredin, £dim ar gyfer 2017/18 (2016/17: £dim), yn erbyn y Gronfa Gyfalaf.

## 4. CYDNABYDDIAETH YMDDIRIEDOLWR A THRAFODION CYFFELYB

Ni dderbyniodd unrhyw aelod o'r Ymddiriedolaeth unrhyw gydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn. Ad-dalwyd costau teithio o £311 (2016/17: £289) i aelodau'r Ymddiriedolaeth.

Rheolwyr allweddol yr Ymddiriedolaeth yw y Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151, Rheolwr Grantiau, Uwch Gyfrifydd a Chynorthwyydd Gweinyddol Cyngor Sir Ynys Môn.

## 5. GRANTIAU

Isod mae'r gwariant elusennol uniongyrchol gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn:-

| | 2017/18 £ | Rhif | 2016/17 £ | Rhif |
|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | | | | |
| - Oriel Ynys Môn | 215,000 | 1 | 215,000 | 1 |
| **Grantiau i gyrff cymunedol a gwirfoddol** | | | | |
| - Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Chyrff Elusennol Arall | 63,579 | 18 | 85,996 | 23 |
| - Costau Rhedeg Neuaddau Pentref | 80,000 | 30 | 80,000 | 32 |
| **Grantiau Mwy** | | | | |
| - Gemau yr Ynysoedd | 40,000 | 1 | 40,000 | 1 |
| - Urdd Gobaith Cymru | 40,000 | 1 | 40,000 | 1 |
| - Clwb Ffermwyr Ifanc | 30,000 | 1 | 30,000 | 1 |
| - Menter Môn | 110,000 | 1 | 110,000 | 1 |
| - Menter Iaith | - | - | 50,000 | 1 |
| - Eisteddfod Genedlaethol Cymru | - | - | 37,500 | 1 |
| - Menter Cymdeithasol | - | - | 37,500 | 1 |
| - Cwmni Frân Wen | - | - | 45,000 | 1 |
| - Canolfan Ucheldre | 30,000 | 1 | - | - |
| - Mind Ynys Môn a Gwynedd | 20,000 | 1 | - | - |
| - Rheilffyrdd Canolog Môn | 25,000 | 1 | - | - |
| - Canolfan Hamdden Biwmares | 45,000 | 1 | - | - |
| - Cwmni Tref Llangefni | 25,000 | 1 | - | - |
| - Cyngor Cymuned Llanfair M E | 10,000 | 1 | - | - |
| - Clwb Bocsio Caergybi | 20,000 | 1 | - | - |
| - Cadet Môr Caergybi | 20,000 | 1 | - | - |
| - Cyngor Tref Caergybi | 50,000 | 1 | - | - |
| - Neuadd Bentref Llanddona | 45,000 | 1 | - | - |
| - Medrwn Môn | 25,000 | 1 | - | - |
| - CG Môn | 35,000 | 1 | - | - |
| | **928,579** | **65** | **770,996** | **64** |

Ar dudalen 19 rhestrir y grantiau hynny gwerth dros £1,000.

**Grantiau heb eu hawlio**

Mae balansau sydd yn weddil i'r mudiadau isod wedi cael ei ysgrifennu i ffwrdd:-

| | 2017/18<br>£ | 2016/17<br>£ |
|---|---|---|
| Cymdeithas Cae Cybi | - | 237 |
| Neuadd Bentref Talwrn | - | 7 |
| Cyngor Cymuned Moelfre | - | 4,756 |
| Cemaes Boat Club | - | 3,500 |
| Cae Chwarae Llanfaethlu | - | 588 |
| Cyngor Cymuned Bryngwran | - | 69 |
| Cyngor Cymuned Penmynydd | - | 151 |
| Canolfan Gymuned David Hughes | - | 89 |
| Cyngor Cymuned y Fali | - | 575 |
| Clwb Arlunio Moelfre | - | 404 |
| Neuadd Goffa Bodedern | 211 | - |
| Clwb Gymnasteg Môn | 136 | - |
| Cylch Llenyddiaeth Llanfairpwll | 625 | - |
| | **972** | **10,376** |

## 6. LLYWODRAETHU

Gweinyddir yr Ymddiriedolaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn, gyda costau Gweinyddu o £39,238 (£31,040 yn 2016/17), a fydd yn cael ei godi i'r Gronfa Cyfalaf. Cynrychiola'r costau Llywodraethu ffioedd i gyrff eraill am wasanaethau arbenigol a chostau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Ymddiriedolaeth. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth staff. Dyma fanylion y costau Rheoli a Gweinyddu:-

| | 2017/18<br>£ | 2016/17<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi'r Archwiliwr - am wasanaethau Archwilio | 2,500 | 2,500 |
| Costau Gweinyddu | 39,238 | 31,040 |
| Costau Teithio a Chynhaliaeth | 311 | 289 |
| Cyfryngau | 2,044 | 2,056 |
| Eraill | 530 | 786 |
| | **44,623** | **36,671** |

## 7. EIDDO BUDDSODDI

Yn ystod 1995, trosglwyddodd Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn ddau ddarn o dir yn Rhosgoch a Phorth Amlwch i'r Ymddiriedolaeth a gwerth hwnnw ar y farchnad yn cael ei amcangyfrif yn £550,000. Yr oedd y tir hwn yn rhan o gytundeb terfynol cwmni Shell (UK) Cyf. (gweler Adroddiad yr Ymddiriedolwr) ac ynghlwm wrtho'r un amodau â'r rheini oedd ynghlwm wrth yr arian gwreiddiol. Gwerthwyd rhan o'r tir ym Mhorth Amlwch yn 1995/96 a gwerthwyd gweddill y tir yn Rhosgoch yn ystod 2015/16.

Nid oes gwerth i weddill y tir ym Mhorth Amlwch, sef amcangyfrif pris y farchnad, ac mae'n cael ei dynodi fel ased treftadaeth. Mae'n cynnwys un ochor i'r harbwr, sy'n dyddio'n ôl i'r 18fed ganrif, a hefyd Melin Mona, a adeiladwyd yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r tir yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i fynediad cyhoeddus i'r Felin ac mae'n ystyried cynigion i gyflawni ei amcanion cadwriaethol a diogelu'r amgylchedd yng nghyswllt y tir hwn.

Gwnaed y gwaith prisio yma gan Brisiwr y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2018. Mae'r Prisiwr yn Aelod o'r Sefydliad Brenhinol o'r Syrfewyr Siartredig (MRICS) ac mae'n gyflogedig gan y Cyngor.

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Asedau Treftadaeth arall, na pholisi i gaffael yn weithredol unrhyw asedau ychwanegol o'r fath.

## 8. BUDDSODDIADAU

Gellir dadansoddi'r buddsoddiadau yn y fantolen fel a ganlyn:-

| | 2017/18<br>£ | 2016/17<br>£ |
|---|---|---|
| Equiti'r DU | 13,459,742 | 6,799,281 |
| Ecwiti Tramor | 2,051,428 | 8,897,062 |
| Llog Sefydlog | 3,552,680 | 4,075,246 |
| Dewisiadau arall | 1,654,804 | 1,956,581 |
| | 20,718,654 | 21,728,170 |
| Arian Parod | 817,229 | 620,885 |
| | **21,535,883** | **22,349,055** |

Mae arian parod a fuddsoddir yn cynnwys symiau bychain o arian tramor. Dangosir y cyfan o'r buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r gwerth hanesyddol cyfatebol ar 31 Mawrth 2018 fel a ganlyn:-

| | Gwerth Hanesyddol<br>£'000 | Gwerth y Farchnad<br>£'000 | Gwahaniaeth<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Equiti'r DU | 11,818 | 13,460 | 1,642 |
| Ecwiti Tramor | 1,919 | 2,051 | 132 |
| Llog Sefydlog | 3,466 | 3,553 | 87 |
| Dewisiadau arall | 1,467 | 1,655 | 188 |
| | **18,670** | **20,719** | **2,049** |

Delir y buddsoddiadau trwy reolwyr buddsoddi ac yn enw enwebeion ac mae modd gwerthu'r holl ddaliadau yn ddidrafferth.

Ar ddyddiad y fantolen, 'roedd y daliadau unigol mwyaf yn bennaf mewn buddsoddiadau cyfun (HSBC Index Tracker Investment Funds - FTSE All-Share Index Fund 12.58% o werth y portffolio; HSBC Global Investment Funds - Global Emerging Markets 9.17% o werth y portffolio; HSBC Index Tracker Investment Funds - FTSE All-World Index Fund 7.68% o werth y portffolio; HSBC Index Tracker Investment Funds - American Index Fund 6.70% o werth y portffolio a The Charities Property Fund 5.10% o werth y portffolio.

| | Gwerth Hanesyddol<br>£'000 | Gwerth y Farchnad<br>£'000 | Enillion A Wireddir<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Dygwyd Ymlaen | 18,732 | 21,728 | - |
| Gwerthiannau ac Adbryniadau | (6,828) | (7,265) | 437 |
| Pryniannau ac ati | 6,766 | 6,766 | - |
| Cyfanswm Enillion /(Colledion) yn ystod y flwyddyn | - | (510) | - |
| | **18,670** | **20,719** | |

Cyfrifir enillion/ (colledion) a wireddir fel y cyfanswm gwahaniaeth rhwng incwm gwerthiant a chost hanesyddol. Cyfanswm enillion/ (colledion) ar fuddsoddiadau yw cyfanswm yr enillion / (colledion) a wireddir o werthu daliadau net o unrhyw addasiadau i gost hanesyddol ynghyd ag enillion/(colledion) heb eu gwireddu.

## 9. DYLEDWYR AC INCWM CRONEDIG

| | 2017/18<br>£ | 2016/17<br>£ |
|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi Cronedig | 58,346 | 72,021 |
| | **58,346** | **72,021** |

## 10. CREDYDWYR A CHRONIADAU

| | 2017/18<br>£ | 2016/17<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi Rheolwyr Buddsoddi | 17,258 | 16,853 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 18,490 | 19,860 |
| Ffi archwilio | 2,500 | 2,500 |
| | **38,248** | **39,213** |

## 11. DYRANIADAU NA CHAWSANT EU TALU

Grantiau yw’r rhain a roddwyd yn y blynyddoedd blaenorol â'r ymgeiswyr heb hawlio'r arian eto. Fel arfer, mae'r grantiau hynny sydd ddim yn cael eu hawlio cyn pen pedair blynedd yn cael eu dileu, ac adlewyrchir hyn yn y ffigwr hwn.

Mae’r grantiau adfywio yn cefnogi cynlluniau lle mae'r ymgeiswyr yn hawlio taliadau dros gyfnod o flynyddoedd.

## 12. CRONFEYDD

| | Cronfa Cyffredinol £’000 | Cronfa Cyfalaf £’000 | Dyrannwyd o’r Gronfa Cyfalaf £’000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo Buddsoddi | - | - | - |
| Buddsoddiadau | 686 | 21,810 | (961) |
| Asedau Cyfredol Net | (645) | - | - |
| | **41** | **21,810** | **(961)** |

Mae'r arian parod dros ben yn unrhyw gronfa, nad oes ei angen ar gyfer hylifedd tymor byr, wedi ei fuddsoddi dros dro gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.

Y **Gronfa Gyfalaf** yw gwaddol yr Ymddiriedolaeth ac mae'n waddol y mae modd ei wario. Mae'n cynnwys tir ac arian a dderbyniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn oddi wrth Shell (UK) Cyf. pryd y rhoddwyd y gorau i weithio eu Glanfa Olew ym Môn, ac a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 1990 a 1995, ynghyd â'r twf cyfalaf ar y symiau hyn. O bryd i'w gilydd, gellir rhyddhau cyfalaf i gyllido prosiectau penodol ar bleidlais mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodaeth yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r symudiadau yn y Gronfa Cyfalaf yn ymwneud ag enillion a cholledion ar fuddsoddiadau, yr elfen perfformiad o ffi y Rheolwyr Buddsoddi ac unrhyw gostau o wella, diogelu neu farchnata'r tir fel y dangosir yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol.

Mae'r balans ar y **Gronfa Gyffredinol** yn cyfateb i'r gwarged a'r diffygion a gronnwyd dros y blynyddoedd diwethaf, sef gwarged y mae'r Ymddiriedolaeth yn rhydd i'w defnyddio yn ôl yr amcanion elusennol.

Mae incwm o'r buddsoddiadau, a'r costau eraill na chodir i'r gronfa cyfalaf yn y flwyddyn, yn ymwneud â'r Gronfa Gyffredinol digyfyngiad fel sy'n ymddangos yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol. Mae'r dyraniadau a wneir yn rhaglen grantiau blynyddol yr Ymddiriedolaeth hefyd yn berthnasol i'r gronfa wrth gefn hon.

## 13. DADANSODDIAD O SYMUDIADAU RHWNG CRONFEYDD

| | Balans dygwyd ymlaen £ | Adnoddau i mewn £ | Adnoddau wedi eu Defnyddio £ | Enillion a Cholledion £ | Symudiad ar Fuddsoddiadau £ | Balans i'w ddwyn ymlaen £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Gyffredinol | (82,853) | 601,412 | (477,110) | - | - | 41,449 |
| Y Gronfa Gyfalaf | 22,310,189 | 320 | - | - | (500,323) | 21,810,186 |
| Grantiau a Ddyrannwyd | (390,528) | - | (570,311) | - | - | (960,839) |
| | **21,836,808** | **601,732** | **(1,047,421)** | **-** | **(500,323)** | **20,890,796** |

## 14. DADANSODDIAD O'R ENILLION/(COLLEDION) AR AILBRISIADAU A GWAREDIADAU O ASEDAU BUDDSODDI

| | 2017/18 £ | 2016/17 £ |
|---|---|---|
| (Colled) gwireddwyd ar werthu Ased Sefydlog | - | - |
| (Colled) heb ei wireddu ar Ailbrisio | - | - |
| Cynnydd wireddwyd yng ngwerth Buddsoddiadau a ddelir | (500,323) | 3,033,174 |
| | **(500,323)** | **3,033,174** |
| Adnoddau net sy'n dod i mewn | **(445,689)** | **(265,977)** |
| **Cyfanswm** | **(946,012)** | **2,767,197** |

## 15. CYSONI SYMUDIAD NET YN Y CYLLID I LIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| | 2018<br>£ | 2017<br>£ |
|---|---|---|
| Symudiad net yn y cyllid ar gyfer y cyfnod adrodd | (946,012) | 2,767,197 |
| **Addasiad ar gyfer :** | | |
| Difidendau, llog a rhent o fuddsoddiadau | (601,732) | (611,219) |
| Enillion wedi eu gwireddu a heb eu gweireddu ar waredu | 500,323 | (3,033,174) |
| (Cynnydd)/gostyngiad yn nyledwyr | 13,675 | (27,816) |
| Cynnydd/(gostyngiad) yng nghredydwyr | 123,107 | (340,337) |
| **Arian net ddarparwyd gan (ddefnyddiwyd yng) ngweithgareddau gweithredu** | **(910,639)** | **(1,245,349)** |

# Grantiau dros £1,000 / Grants over £1,000

| Mudiad | Grant (£) | Organisation |
|---|---|---|
| Oriel Ynys Môn | 215,000.00 | Oriel Ynys Môn |
| Cynllun Arweiniol Menter Mon | 110,000.00 | Menter Mon Leader Scheme |
| Cyngor Tref Caergybi | 50,000.00 | Holyhead Town Council |
| Canolfan Hamdden Biwmaris | 45,000.00 | Beaumaris Leisure Centre |
| Neuadd Bentref Llanddona | 45,000.00 | Llanddona Village Hall |
| Urdd Gobaith Cymru | 40,000.00 | Urdd Gobaith Cymru |
| Cymdeithas Gemau'r Ynys | 40,000.00 | Island Games Association |
| Cymunedau'n Gyntaf Mon | 35,000.00 | Môn Communities First |
| Ffermwyr Ifanc Ynys Môn | 30,000.00 | Isle of Anglesey Young Farmers |
| Canolfan Ucheldre | 30,000.00 | Ucheldre Centre |
| Rheilffordd Canolog Môn Cyf | 25,000.00 | Anglesey Central Railway Ltd |
| Cwmni Tref Llangefni | 25,000.00 | Cwmni Tref Llangefni |
| Medrwn Môn | 25,000.00 | Medrwn Môn |
| Ynys Môn & Gwynedd Mind | 20,000.00 | Ynys Mon & Gwynedd Mind |
| Clwb Bocsio Caergybi | 20,000.00 | Holyhead Boxing Club |
| Cadetiaid Môr Caergybi | 20,000.00 | Holyhead Sea Cadets |
| Cyngor Cymuned Llanfair M E | 10,000.00 | Llanfair M E Community Council |
| Trigolion Llanddaniel Fab | 8,000.00 | Llanddaniel Fab Residents |
| Canolfan Llanfairynghornwy | 8,000.00 | Llanfairynghornwy Centre |
| Clwb Criced Porthaethwy | 8,000.00 | Menai Bridge Cricket Club |
| Clwb Peldroed Llandegfan | 7,000.00 | Llandegfan Football Club |
| Cymdeithas Morisiaid Môn | 4,676.00 | Morisiaid Môn Society |
| Grwp Cymunedol Amlwch | 4,200.00 | Amlwch Community Group |
| Neuadd Gymuned ac Eglwys Moelfre | 3,918.00 | Moelfre Church and Community Hall |
| Cymdeithas Tir Glas | 3,804.00 | Tir Glas Society |
| Canolfan Gymuned Kingsland | 3,700.00 | Kingsland Community Centre |
| Sefydliad Coffau Rhyfel Amlwch | 3,700.00 | Amlwch War Memorial Institute |
| Canolfan Gymuned Newry | 3,700.00 | Newry Community Centre |
| Neuadd Bentref Ymddiriedolaeth David Hughes (Cemaes) | 3,700.00 | Trust David Hughes Village Hall (Cemaes) |
| Neuadd Gymuned David Hughes | 3,700.00 | David Hughes Community Hall |
| Neuadd Bentref Rhosneigr | 3,700.00 | Rhosneigr Village Hall |
| Gnisiog Cyf | 3,219.00 | Gnisiog Cyf |
| Sefydliad Prichard Jones | 3,197.00 | Prichard Jones Institute |
| Canolfan Gymuned Gwelfor | 3,079.00 | Gwelfor Community Centre |
| Neaudd Bentref Bae Trearddur | 2,800.00 | Trearddur Bay Village Hall |
| Neuadd Gymuned Llaingoch | 2,650.00 | Llaingoch Community Hall |
| Neuadd Bentref Gaerwen | 2,611.00 | Gaerwen Village Hall |
| Neuadd y Plwyf Llandegfan | 2,489.00 | Parish Hall Llandegfan |
| Cymdeithas Campau & Cymdeithasol Porth Amlwch | 2,226.00 | Amlwch Port Sports & Social Association |
| Neuadd Bentref Llangoed | 2,198.00 | Llangoed Village Hall |
| Neuadd Goffa Pentraeth | 2,117.00 | Pentraeth Memorial Hall |
| Neuadd Bentref Llanfaelog | 2,037.00 | Llanfaelog Village Hall |
| Hen Ysgol Marianglas | 2,036.00 | Hen Ysgol Marianglas |
| Neuadd Goffa Bodedern | 1,912.00 | Bodedern Village Hall |
| Neuadd Bentref Brynteg | 1,829.00 | Brynteg Village Hall |
| Createasmile | 1,750.00 | Createasmile |
| Canolfan Gymuned Cofeb Rhyfel Porthaethwy | 1,709.00 | Menai Bridge War Memorial Community Centre |
| Clwb Bowlio Caergybi | 1,575.00 | Holyhead Bowling Club |
| Cyfleillion Swtan | 1,545.00 | Friends of Swtan |
| Neuadd Bentref y Talwrn | 1,539.00 | Talwrn Village Hall |
| Côr Cymunedol Llanddona | 1,395.00 | Llanddona Community Choir |
| Cyngor Cymuned Bryngwran | 1,329.00 | Bryngwran Community Centre |
| Clwb Pel Droed Fali | 1,329.00 | Valley Football Club |
| Y Ganolfan Brynsiencyn | 1,320.00 | The Centre Brynsiencyn |
| Clwb Blowlio Biwmares | 1,295.00 | Beaumaris Bowling Club |
| Canolfan Gymdeithasol Rhosmeirch | 1,270.00 | Rhosmeirch Community Centre |
| Neaudd Bentref Llanddona | 1,095.00 | Llanddona Village Hall |
| Neuadd Gymuned Mudiad y Merched Llaneilian | 1,050.00 | Llaneilian W.I. Community Hall |
| | 907,399.00 | |

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr**

Yr ymddiriedolwr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig (Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ôl cyfraith elusennau Lloegr a Chymru, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o'r elusen, yr adnoddau mewnol a'r defnydd o adnoddau yr elusen am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr:-

**(a)** ddefnyddio a chymhwyso yn gyson bolisïau cyfrifyddol addas a luniwyd;
**(b)** dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiadiadau Cymeradwyol o Ymarferion Elusennnau (SORP);
**(c)** gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog;
**(ch)** datgan os yw'r polisïau a fabwysiadwyd yn gyson gyda'r safonau cyfrifo perthnasol, yn amodol ar i'r amrywiadau sylweddol gael eu nodi a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol; a
**(d)** paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes byw onid yw'n amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol digonol sydd yn dangos, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw bryd, sefyllfa ariannol yr elusen, sydd yn caniatáu iddynt sicrhau bod a'r y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Elusennau 2011, Rheoliadau (Cyfrifo ac Ymadrodd) Elusennau a'r darpariaethau o fewn gweithredoedd yr ymddiriedolaeth. Yr ymddiriedolwr sydd hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac, felly, am gymryd camau priodol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn**

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn am y flwyddyn i'r 31ain Mawrth 2017, sydd yn cynnwys y Datganiad o Weithredoedd Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig (Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi ar gyfer ymddiriedolwr yr elusen, fel corff, yn unig yn unol ag Adran 144 o'r Ddeddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau o dan Adran 154 o'r Ddeddf. Mae'n gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i ymddiriedolwr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd mewn adroddiad archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at yr eithaf a ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw yr elusen ac ymddiriedolwr yr elusen, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

**Priod Gyfrifoldebau Yr Ymddiriedolwr a'r Archwiliwr**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr, yr ymddiriedolwr sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol sy'n rhoi golwg gwir a theg.

Yr ydym wedi ein hapwyntio fel archwiliwr yn unol ag Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â rheoliadau o dan Adran 154 o'r Ddeddf. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a rhoi barn arnynt yn unol â gofynion y gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'n ofynnol dan y safonau hynny i gydymffurfio â Safonau Moesol i Archwilwyr gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Parhad)**

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sydd yn ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiad sylweddol, boed hynny wedi'i achosi trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o:- os yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r cwmni elusennol, wedi eu defnyddio yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; resymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaethpwyd gan yr ymddiriedolwr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, 'rydym wedi darllen yr wybodaeth ariannol a di-ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol i adnabod os oes anghysondebau sylweddol gyda'r datganiadau ariannol sydd wedi eu harchwylio. Os dawn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol amlwg, rydym yn ystyried goblygiadau ein adroddiad.

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Yn ein barn, mae'r datganiadau ariannol yn:-

- rhoi golwg gwir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2017, ac am yr adnoddau a dderbyniwyd a'r adnoddau a ddefnyddiwyd, yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol a'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig ; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

**Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad**

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglŷn â'r materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:-

- bod yr wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwr yn sylweddol anghyson gyda'r datganiadau ariannol;
- nad yw cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r dychweliadau cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

*W J Matthews a'i Fab*
*Archwiliwr Statudol*
*Cyfrifwyr Siartredig*
*11-15 Y Bont Bridd*
*Caernarfon*
*Gwynedd*
*LL55 1AB*

*Dyddiedig:*

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **23 IONAWR 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYLLIDEB 2019/20** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYLLIDEB AMLINELLOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **MABWYSIADU'R GYLLIDEB AR GYFER 2019/20** |

**1. Crynodeb**

**1.1** Mae'n rhaid wrth yr adroddiad hwn i gadarnhau dyraniadau cyllido ar gyfer 2019/20.

**1.2** Yn 2018/19 mabwysiadodd yr Ymddiredolaeth gyllideb o:-

**O'r Gronfa Gyffredinol**

- Oriel Ynys Môn £215k;
- Neuaddau Pentref £80k;
- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bach £125k;
- Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd £40k;
- Urdd £40k;
- Ffermwyr Ifanc Ynys Môn £30k;
- Menter Môn £63k; ac
- Ysgol Gyfun Llangefni £10k.

**Cyfanswm £603k**

**O'r Gronfa Cyfalaf**

- Clwb Pêl Droed Bae Cemaes £37k;
- Neuadd Bentref Aberffraw £43k;
- Cyngor ar Bopeth £40k;
- Neuadd Bentref Llanfairynghornwy £26k;
- Banc Bwyd Ynys Môn £20k;
- Tudur Cyf £6k;
- Cymdeithas Treftadaeth Ddiwydiannol Amlwch £66k;
- Beiciau Gwaed Cymru £8k;
- Clwb Rygbi Llangefni £18k;
- Ffrindiau Moelfre £27k;
- Côr Ieuenctid Môn £14k;
- Ymddiriedolaeth Colofn Môn £10k.
- Neuadd Goffa Bodwrog £25k; a
- Band Biwmares £10k.

**Cyfanswm £350k**

## 2. Gwerth Portffolio ac Incwm Buddsoddi Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn 2019/20

- Gwerth presennol y Portffolio ar 30 Tachwedd 2018 yw £21,652,602;
- Rhagolygon diweddaraf yr Incwm Buddsoddi ar gyfer 2019/20 yw £672,000;
- Rhagolygon Ffioedd Rheoli ar gyfer 2019/20, sydd yn seiliedig ar raddfa sefydlog o 0.4%, yw £104,000; a
- Roedd gwarged o £41,449 yn yr Arian Wrth Gefn a ddygwyd ymlaen o 2017/18. Gweler y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol yr Adroddiad Blynyddol 2017/18.

## 3. Symudiadau yn Arian Wrth Gefn yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

| | 2018/19 £000 | 2019/20 £000 |
|---|---:|---:|
| Incwm Buddsoddi | 680 | 672 |
| Llai ffioedd rheoli buddsoddi safonol | (94) | (104) |
| Ar gael i'w wario | 586 | 568 |

**Gwariant**

| | | |
|---|---:|---:|
| Gwariant Grant (para 1.2 a para 4) | 603 | 483 |
| Cyfanswm Gwariant | 603 | 483 |

**Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn**

| | | |
|---|---:|---:|
| I/(O) Arian Wrth Gefn | (17) | 85 |
| Gwarged / (Diffyg) a ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn | 24 | 109 |

## 4. Cyllideb Arfaethedig 2019/20 yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

| Math o Grant | Cyllideb o'r Gronfa Gyffredin £'000 | Cyllideb o'r Gronfa Gyfalaf £'000 |
|---|---:|---:|
| Oriel Ynys Môn | 215 | |
| Neuaddau Pentref | 80 | |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bach | 125 | |
| Grantiau Mwy | | 350 |
| Ymrwymiadau Tymor Hir:- | | |
| Menter Môn | 63 | |
| | 483 | 350 |

Bwriedir cadw cyllideb y Neuaddau Pentref yn £80k, fel y dyfarnwyd yn 2018/19. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r swm a wariwyd ar Neuaddau Pentref wedi bod yn llai na £80k (£67k yn 2015/16, £64k yn 2016/17, £64k yn 2017/18 a £44k hyd at Chwarter 3 yn 2018/19). Mae'n bosib lleihau y gyllideb i adlewyrchu y derbyniadau diweddar.

Bwriedir cadw cyllideb y Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bach yn £125k fel y dyfarnwyd yn 2018/19. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r swm a wariwyd ar Gyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bach wedi bod yn llai na £125k (£103k yn 2015/16, £86k yn 2016/17, £59k yn 2017/18 a £108k yn 2018/19). Mae'n bosib lleihau y gyllideb i adlewyrchu y derbyniadau diweddar.

Yn 2018/19, bydd diffyg yn y gyllideb o £17k, fodd bynnag, fel y dywedir yn Adran 2 yr adroddiad yma, roedd gwarged o £41k yn yr arian wrth gefn a ddygwyd ymlaen o 2017/18. Bydd hyn yn arwain at warged i'w ddwyn ymlaen i 2019/20. Os mabwysiedir y gyllideb yn Adran 4, bydd gwarged rhagamcanedig o £109k i'w ddwyn ymlaen i 2020/21.

Yn 2014/15, penderfynodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ddyrannu grant i Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, Urdd Gobaith Cymru a Chymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn yn flynyddol am gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r swm llawn a ddyranwyd i bob mudiad wedi ei groni yng nghyfrifon 2014/15 er mai dim ond rhan or cyllid gafodd ei dalu drosodd i'r mudiadau y flwyddyn honno. Mae'r balans sydd yn weddill i'r Urdd o £16,667, £22,500 i'r Ffermwyr Ifanc a £40,000 i Gymdeithas Gemau'r Ynysoedd i weld ar Fantolen yr Ymddiriedolaeth fel dyraniadau heb eu talu. Bydd y taliadau yma'n cael eu gwneud yn 2019/20; fodd bynnag, nid oes angen dyrannu gan fod y symiau wedi eu croni yn 2014/15. Yn 2018/19 penderfynodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ddyrannu grant i Menter Môn yn flynyddol am gyfnod o 3 mlynedd. Yn 2019/20, bydd y gyllideb yn £63k, gyda gofyniad am gyllideb pellach yn 2020/21.

## 5. Y Cylch Cyllido 2019/20

Cynigir cyhoeddi hysbysebion am grantiau blynyddol bach i'w dyfarnu gan y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yng nghanol mis Mawrth 2019, gyda dyddiad cau o Dydd Gwener 10 Mai 2019 ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Gweler Adran 7(a) ar gyfer y gyllideb a argymhellir.

## 6. Grantiau Mwy 2019/20

Yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2018, penderfynodd y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau fod dyraniad o £350k yn cael ei wneud ar gael at gyllido grantiau mwy yn 2019/20. Yn mis Rhagfyr 2018, roedd hysbyseb yn yr Holyhead & Anglesey Mail yn cynnig i fudiadau gwneud cais ar gyfer arian grant yn 2019/20, hefo dyddiad cau ar gyfer ceisiadau o Ddydd Gwener, 25 Ionawr 2019. Mae safle Facebook a Twitter y Cyngor hefyd wedi bod yn hysysebu y grantiau mwy ar gyfer 2019/20, gyda'r ffurflen gais ar gael ar wefan y Cyngor.

## 7. Argymhellion

**(a)** Mabwysiadu'r gyllideb ar gyfer 2019/20 fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Oriel Ynys Môn | £215k |
| Neuaddau Pentref | £ 80k |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bach | £125k |
| Grantiau Mwy o'r Gronfa Cyfalaf (gweler Adran 6 uchod) | £350k |
| Ymrwymiadau Tymor Hir parhaus (wedi eu torri lawr yn Nhabl 4) | £ 63k |

**(b)** Dirprwyo swm o £125k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ddelio gyda cheisiadau ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bach.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD –**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **11 IONAWR 2018**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD** | **23 IONAWR 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Cyllid yn y Dyfodol ar gyfer yr Urdd a Ffermwyr Ifanc Môn** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Ystyried sut i ddelio gyda cheisiadau am gyllid yn y dyfodol gan yr Urdd a Ffermwyr Ifanc Môn** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Trysorydd – Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **GWEITHREDU** | **Ystyried yr adroddiad a phenderfynu sut i ddelio gyda cheisiadau am gyllid yn y dyfodol gan y ddau fudiad** |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Ym mis Mehefin 2014, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth roddi grant blynyddol o £40k y flwyddyn i'r Urdd am gyfnod o 5 mlynedd, a phenderfynodd roddi grant blynyddol o £30k i Ffermwyr Ifanc Môn am yr un cyfnod o 5 mlynedd.

**1.2** Roedd y Cyngor Sir wedi bod yn darparu cymorth ariannol i'r ddau fudiad yn flaenorol ond, oherwydd y pwysau ariannol roedd y Cyngor yn ei wynebu, cafodd y cyllid hwn ei dorri ac roedd y grant a ddyfarnwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn caniatáu i'r ddau fudiad barhau ac i ddatblygu'r gwaith oedd yn cael ei wneud i ddarparu rhaglen o weithgareddau a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc Ynys Môn.

**1.3** Er y dyfarnwyd y grant ar gyfer blynyddoedd ariannol 2014/15, 2015/16, 2016/17, 2017/18 a 2018/19, dim ond £23,333 o'r £40,000 a ddyfarnwyd a gafodd ei dalu i'r Urdd yn 2014/15 a dim ond £7,500 o'r £30,000 a ddyfarnwyd a gafodd ei dalu i Ffermwyr Ifanc Môn yn 2014/15. O ganlyniad, bydd £16,667 yn cael ei dalu i'r Urdd yn 2019/20 a bydd £22,500 yn cael ei dalu i Ffermwyr Ifanc Môn yn 2019/20.

## 2. DELIO GYDA CHEISIADAU AM ARIAN GRANT YN Y DYFODOL

**2.1** Hyd at 2016, nid oedd yr Ymddiriedolaeth ond yn dyfarnu grantiau o hyd at £8,000 trwy broses ymgeisio ffurfiol, er hyn roedd wedi dyfarnu grantiau mwy i nifer o fudiadau eraill ar sail ad-hoc, gyda'r ceisiadau'n cael eu hystyried ar eu rhinweddau eu hunain heb ystyriaeth i unrhyw geisiadau eraill posib. Roedd yr Urdd a Ffermwyr Ifanc Môn wedi derbyn eu harian grant trwy'r broses ad-hoc hon.

**2.2** Oherwydd nifer y mudiadau oedd yn dod ymlaen yn ceisio am arian grant uwchlaw'r terfyn o £8,000 ac er mwyn cael dull mwy strwythuredig gyda gwell rheolaeth, a oedd yn caniatáu gallu dyfarnu grantiau mewn modd teg a thryloyw, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth gyflwyno proses grantiau mwy o 2017 ymlaen. Byddai'r grantiau hyn yn cael eu hariannu o'r twf yng ngwerth cyfalaf y portffolio ac roedd hyn hefyd yn lleihau'r galw i ariannu grantiau'n gyfan gwbl o'r incwm refeniw blynyddol a gynhyrchwyd.

**2.3** Er bod y broses ffurfiol, strwythuredig hon wedi bod mewn lle ers 2017, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dyfarnu grant i brosiect Leader Menter Môn (24 Ionawr 2018) ac i ddisgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni (27 Mehefin 2018) tu allan i'r broses grantiau mwy blynyddol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu mewn egwyddor dyfarnu grant i Gymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn i'w cynorthwyo gydag ariannu'r gwaith o gynnal y Gemau yn 2025 (28 Chwefror 2018).

**2.4** Yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2017, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth hefyd y gellir rhoi ystyriaeth i geisiadau gan sefydliadau sydd wedi derbyn cyllid o'r blaen yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, fel rhan o'r broses grantiau mwy, ond dim ond pan fo'r holl geisiadau eraill wedi cael eu hystyried a bod cyllid yn weddill sydd heb ei ddyfarnu.

**2.5** Unwaith eto, rydym wedi gwahodd ceisiadau gan sefydliadau am grantiau mwy a'r dyddiad olaf ar gyfer derbyn y ceisiadau yw 25 Ionawr 2019, a bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Adfywio yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2019. Bydd y penderfyniad terfynol ar ddyfarnu'r grantiau yn cael ei wneud gan yr Ymddiriedolaeth yn ei gyfarfod ar 16 Ebrill 2019.

**2.6** Mae Ysgrifennydd a Thrysorydd yr Ymddiriedolaeth wedi cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Urdd a Ffermwyr Ifanc Môn yn rhoi gwybod iddynt y bydd gofyn i'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y bydd yn delio gydag unrhyw geisiadau am gyllid yn y dyfodol ac i ofyn i'r ddau fudiad gyflwyno cais am gyllid at y dyfodol.

**2.7** Yng nghyfarfod yr Ymddiriedolaeth ar 12 Rhagfyr 2018, pan yr oeddent yn trafod cyllid i'r Urdd ac i Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, roedd yr Aelodau yn derbyn fod y ddau fudiad yn hollbwysig i roi cyfleon i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau a chystadlaethau, fodd bynnag cysidrwyd hefyd y dylai pob mudiad gael eu trin yn gyfartal fel rhan o'r broses dyfarnu grantiau.

## 3. OPSIYNAU I'W HYSTYRIED

**3.1** Wrth ddelio gyda cheisiadau am gyllid gan yr Urdd a Ffermwyr Ifanc Môn, mae'r opsiynau canlynol ar gael:-

**1.** Ystyried yr Urdd a / neu Ffermwyr Ifanc Môn fel sefydliadau a ffafrir ac ymdrin gyda'u ceisiadau am gyllid tu allan i'r broses grantiau mwy gyda'r posibilrwydd y byddai'r mudiadau yn cael eu hariannu fwy nag unwaith pob 5 mlynedd h.y. yn groes i'r penderfyniad ym mis Rhagfyr 2017 (gweler paragraff 2.4 uchod). Pe bai'r Ymddiriedolaeth yn penderfynu dilyn yr opsiwn hwn, mae'r ddau fudiad wedi nodi y byddent yn dymuno mynychu cyfarfod yr Ymddiriedolaeth yn bersonol i roi gwybodaeth i Aelodau'r Ymddiriedolaeth am yr hyn mae'r mudiadau wedi'i wneud gyda'r arian a dderbyniwyd ers 2014 a sut y byddai'r cyllid pellach yn galluogi'r mudiadau i barhau i ddatblygu'r gwaith maent yn ei wneud. Gan y bydd y ddau fudiad yn parhau i dderbyn cyllid yn 2019, nid oes brys mawr i ddelio gyda'r ceisiadau a gallai'r Ymddiriedolaeth roi ystyriaeth iddynt yn y Gwanwyn neu'n fuan yn yr Haf.

Os rhoddir statws 'sefydliadau a ffafrir' iddynt, nid yw hynny'n awtomatig yn golygu y caiff cyllid ychwanegol ei ddyfarnu i'r ddau fudiad. Byddai unrhyw benderfyniad ar eu hariannu yn y dyfodol yn gorfod cael penderfyniad pellach gan yr Ymddiriedolaeth ar ôl iddo asesu rhinweddau'r ceisiadau.

**2.** Ystyried y ceisiadau a dderbynnir gan y ddau fudiad fel rhan o'r broses grantiau mwy a chaniatáu i'r Pwyllgor Adfywio argymell i'r Ymddiriedolaeth p'un a ddylai gefnogi'r ceisiadau ai peidio. Mater i'r Pwyllgor Adfywio fydd penderfynu p'un a fydd y mudiadau'n cael gwahoddiad i roi cyflwyniad ffurfiol ar eu gwaith i'r Pwyllgor.

**3.** Ystyried y ceisiadau a dderbynnir gan y ddau fudiad fel rhan o'r broses grantiau mwy, fel yr uchod, ond dim ond ystyried y ceisiadau pan fo'r holl geisiadau eraill wedi cael eu hystyried, yn unol â phenderfyniad yr Ymddiriedolaeth ym mis Rhagfyr 2017.

## 4. PENDERFYNIAD I'R PWYLLGOR

**4.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a yw'n dymuno trin yr Urdd a/neu Ffermwyr Ifanc Môn fel sefydliadau a ffafrir ac i ystyried eu ceisiadau am gyllid pellach tu allan i'r broses ffurfiol grantiau mwy. Os mai'r penderfyniad yw peidio trin y ddau fudiad yn fwy ffafriol, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a ganiateir i'r ceisiadau gael eu hystyried ynghyd â'r holl rai eraill gan y Pwyllgor Adfywio, neu a fydd dim ond modd ystyried y ceisiadau unwaith mae'r holl geisiadau newydd wedi cael eu hystyried a bod cyllid yn weddill sydd heb ei ddyrannu.

**4.2** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a yw'n dymuno cynyddu'r gyllideb ar gyfer dyraniadau yn 2019/20, naill ai trwy gyllido'r cynnydd o incwm refeniw neu o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y buddsoddiadau.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD –**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **14 IONAWR 2019**

This page is intentionally left blank